Cyllid & Thollau EM

Nodiadau arweiniol ar gyfer ffurflen CA72B

ar gyfer 6 Ebrill 2012 i 5 Ebrill 2013

Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Mae'r nodiadau hyn yn dweud wrthych am yr amodau mae'n rhaid i chi eu bodloni er mwyn gwneud cais i ohirio cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) hunangyflogedig. Darllenwch y nodiadau hyn cyn cwblhau'r ffurflen CA72B *Ffurflen gais ar gyfer gohirio talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a/neu Dosbarth 4 o 6 Ebrill 2012 tan 5 Ebrill 2013.*

Cyflwyniad

Mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid i chi fodloni holl rwymedigaethau CYG fel cyflogai ac fel person hunangyflogedig ym mhob un o'ch cyflogaethau. Ond os ydych wedi eich cyflogi ac yn hunangyflogedig ac yn disgwyl talu:

- prif CYG Dosbarth 1 fel cyflogai, **a**
- CYG Dosbarth 2 a/neu Dosbarth 4 yn eich hunangyflogaeth,

gallwch ofyn i ohirio rhan o'r CYG Dosbarth 2 a/neu Dosbarth 4 nes ein bod yn gallu cyfrifo'r swm cywir o CYG sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn dreth ddilynol.

Gallwch ohirio eich CYG Dosbarth 2 os ydych yn debygol o dalu CYG Dosbarth 1 ar eich enillion sydd o leiaf £817 bob wythnos (£3,540 bob mis) am y flwyddyn gyfan.

Gallwch ohirio rhai o'ch CYG Dosbarth 4 os gallwch ddangos eich bod yn debygol o dalu gormod o ran CYG Dosbarth 1, Dosbarth 2 a Dosbarth 4.

Pwysig

Hyd yn oed os ydym yn eich caniatáu i ohirio talu Dosbarth 4, bydd yn rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 4 o hyd ar gyfradd o ddau y cant ar yr holl elw uwchben y Terfyn Elw Isaf o £7,605 pan dalwch eich tâl Treth Incwm ar elw'r fasnach.

CYG Dosbarth 1

Mae'n rhaid i chi dalu prif CYG Dosbarth 1 os:

- ydych yn gweithio fel cyflogai yn y DU, **ac**
- mae eich enillion yn fwy na Phrif Drothwy'r cyflogai, **ac**
- rydych yn 16 neu'n hŷn ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler y paragraff dilynol 'Newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth').

Newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Cyflwynwyd newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2010.

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i wragedd a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Rhagfyr 1953 yn cynyddu'n raddol i 65. Caiff ei gyflwyno dros gyfnod o wyth mlynedd o Ebrill 2010 i Dachwedd 2018.

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a gwragedd a aned ar ôl 5 Rhagfyr 1953 yn cynyddu'n raddol i 66. Caiff hwn ei gyflwyno'n raddol rhwng Tachwedd 2018 a Medi 2020.

I ddarganfod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **www.direct.gov.uk/statepension**

CYG Dosbarth 2

Os ydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn hunangyflogedig, mae'n rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2 oni bai:

- rydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler y paragraff 'Newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth'), **neu**
- mae hawl gennych i dalu CYG Dosbarth 1 y cyflogai ar gyfradd is fel gwraig briod neu weddw, **neu**
- mae gennych enillion bach a Thystysgrif Eithriad Enillion Bach ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Y cyfraddau Dosbarth 2 wythnosol ar gyfer y flwyddyn dreth 2012-13 yw:

• hunangyflogedig	£2.65
• pysgotwyr cyfran	£3.30
• gweithiwr datblygu gwirfoddol	£5.35

Yn hunangyflogedig gydag enillion bach

Os ydych yn gyflogedig ac yn hunangyflogedig, ond rydych yn disgwyl i'ch enillion hunangyflogedig fod yn llai na'r terfyn Eithriad Enillion Bach sef £5,595 ar gyfer 2012-13:

- efallai na fydd yn rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 2, **ac**
- ni ddylech wneud cais i ohirio.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â'r Eithriad Enillion Bach ewch i **www.hmrc.gov.uk/forms/cf10-cymraeg.pdf** neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900 a gofynnwch ynghylch hawlio'r Eithriad Enillion Bach. Sicrhewch fod gennych eich rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio. Gallwch hefyd fynd i **www.hmrc.gov.uk/selfemployed**

Newydd ddod yn hunangyflogedig

Pan ddewch yn hunangyflogedig mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer Hunanasesiad gyda Chyllid a Thollau EM (CThEM). Byddwn wedyn yn sefydlu'r cofnodion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol cywir ar eich cyfer. Dylech ddweud wrthym cyn gynted ag ydych yn dechrau gweithio ar gyfer eich hunan (ni allwch gofrestru ymlaen llaw). Os ydych yn oedi cyn cofrestru efallai bydd yn rhaid i chi dalu cosb. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosbau pellach os oes taliadau'n ddyledus ac nid ydynt yn cael eu talu ar amser ac yn llawn.

I gofrestru ar gyfer Hunanasesiad:

- ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/sa/register.htm**
- ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0300 200 1900**.

Bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnoch i gofrestru.

CYG Dosbarth 4

Mae CYG Dosbarth 4 yn gysylltiedig ag elw ac ar gyfer 2012-13 fe'u cyfrifir ar:

- naw y cant o elw neu enillion rhwng y Terfyn Elw Isaf o £7,605 a'r Terfyn Elw Uchaf o £42,475, **a**
- dau y cant o elw neu enillion sydd uwchben y Terfyn Elw Uchaf.

Maent fel arfer wedi'u hunanasesu a'u casglu gyda'r tâl Treth Incwm ar elw'r fasnach.

Os ydych:
- yn hunangyflogedig, **ac/neu**
- yn derbyn incwm sy'n cael ei asesu ar gyfer treth drwy godi tâl ar elw'r fasnach

efallai y bydd yn rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 4, os yw eich elw a'ch enillion dros y Terfyn Elw Isaf.

Rydych yn agored i dalu CYG Dosbarth 4 ar gyfer y flwyddyn dreth gyfan pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth (gweler y paragraff 'Newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth').

Pan nad oes rhaid i chi dalu CYG Dosbarth 4

Nid oes angen i chi dalu CYG Dosbarth 4 os:
- ydych ar neu dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ar ddechrau blwyddyn yr asesiad (gan gynnwys os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 6 Ebrill), **neu**
- nad ydych yn preswylio yn y DU at ddibenion Treth Incwm, **neu**
- ydych yn ymddiriedolwr, ysgutor neu weinyddwr (mewn rhai achosion yn unig), **neu**
- ydych yn bartner segur, hynny yw rydych yn cyflenwi cyfalaf ac yn cymryd cyfran o'r elw, ond nid ydych yn cymryd rhan weithredol i redeg y busnes, **neu**
- ydych yn blymiwr neu'n oruchwyliwr plymio sy'n gweithio mewn cysylltiad â gweithgareddau archwilio neu ymelwad ar ysgafell gyfandirol y DU neu yn nyfroedd tiriogaethol y DU a'ch bod yn derbyn incwm sy'n cael ei asesu ar gyfer treth trwy godi tâl ar elw'r fasnach.

Os cewch eich asesu am CYG Dosbarth 4 ac yn credu y dylech gael eich eithrio o dan un o'r categorïau uchod, dywedwch wrth y swyddfa Cyllid a Thollau EM sy'n delio â'ch ffurflen dreth.

CYG Dosbarth 1 ar incwm y gellir ei asesu ar gyfer treth trwy godi tâl ar elw masnach ac enillion busnes atodol y gellir eu hasesu ar gyfer treth trwy godi tâl ar elw'r fasnach

Enghraifft 1 - CYG Dosbarth 1 ar incwm y gellir ei asesu trwy godi tâl ar elw'r fasnach

Mae CYG Dosbarth 4 fel arfer yn daladwy ar bob incwm a gaiff ei asesu fel elw masnach o hunangyflogaeth. Fodd bynnag mae gan rai unigolion (er enghraifft rhai pobl sy'n gweithio yn y diwydiant adloniant) enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig y maent yn talu CYG Dosbarth 1 arnynt, ond sydd yn yn agored i dreth trwy godi tâl ar elw'r fasnach.

Os oes gennych unrhyw enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2012-13, sy'n agored i dreth trwy godi tâl ar elw'r fasnach, dylid tynnu'r enillion hynny o ffigur yr elw at ddibenion unrhyw rwymedigaeth CYG Dosbarth 4 ar eich ffurflen dreth.

Enghraifft 2 – Enillion busnes ategol a asesir ar gyfer treth gan dâl ar elw'r fasnach

Efallai y cewch enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig ac mae swm sy'n cynrychioli'r enillion hynny wedyn yn cael ei dalu i'ch cyfrifon busnes sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r elw masnach o hunangyflogaeth. Er enghraifft, efallai eich bod yn is-bostfeistr neu'n feddyg.

Os ydych yn talu swm sy'n cynrychioli enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig i'ch cyfrifon busnes ar gyfer y flwyddyn dreth 2012-13, dylid symud y tynnu'r o ffigur yr elw at ddibenion unrhyw rwymedigaeth CYG Dosbarth 4 ar eich ffurflen dreth.

Yn y ddwy enghraifft hyn, nid oes CYG Dosbarth 4 yn ddyledus ar enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig. Does dim angen gwneud cais i ohirio mewn perthynas â'r enillion hynny.

Os yw enghraifft 1 neu 2 yn berthnasol i chi, wrth i chi gwblhau eich ffurflen dreth dylech eithrio holl enillion gweithiwr cyflogedig wrth gyfrif yr elw trethadwy ar gyfer asesu rhwymedigaeth CYG Dosbarth 4. I wneud hyn dylech gofnodi addasiad i elw sy'n agored i CYG Dosbarth 4 ar eich ffurflen dreth. Gweler CYG Dosbarth 4 yn y nodiadau ar dudalennau *Hunangyflogaeth* y ffurflen dreth.

Ni ddylid cynnwys yr enillion hyn yn yr elw a'r enillion a ddangosir ar eich ffurflen dreth. Fodd bynnag, efallai bod gennych enillion o hunangyflogaeth o hyd ar ôl i chi eithrio enillion o gyflogaeth gweithiwr cyflogedig. Bydd enillion o'r fath yn drethadwy fel elw'r fasnach ac yn agored i CYG Dosbarth 2 a Dosbarth 4.

Os yw hyn yn berthnasol i chi ond rydych yn dal i ddisgwyl talu gormod o CYG Dosbarth 1, Dosbarth 2 a Dosbarth 4, gallwch naill ai:
- gwneud cais i ohirio CYG Dosbarth 2 a/neu Dosbarth 4, **neu**
- gwneud cais i gael ad-daliad o CYG Dosbarth 4 pan fydd eich ffurflen dreth phrosesu'n derfynol a'r tâl wedi'i dalu'n.

Pysgotwyr cyfran

Mae amodau penodol yn gymwys os ydych yn bysgotwr cyfran yn ogystal â chyflogai.

Os nad ydych wedi gwneud trefniadau i rywun gofnodi a chasglu CYG Dosbarth 4 ar eich rhan, rhaid i chi wneud cais i ohirio CYG Dosbarth 4. Yn yr achos hwn dylech ysgrifennu at y Gwasanaethau Gohirio yn y cyfeiriad a ddangosir yn y paragraff 'Help a chyngor' ar dudalen 3.

Am wybodaeth bellach ynghylch pysgotwyr cyfran, ewch i **www.hmrc.gov.uk/selfemployed**

Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900** (8.30 tan 17.00 dydd Llun i ddydd Gwener). Sicrhewch fod gennych eich rhif Yswiriant Gwladol yn barod pan fyddwch yn ffonio.

Ceisiadau trydydd parti

Os ydych am i ni ddelio â thrydydd parti, bydd angen caniatâd ysgrifenedig wedi'i lofnodi arnom.

Os ydych am i gyfrifydd, cynghorydd neu rywun i weithredu ar eich rhan mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â CThEM, neu os ydych am newid manylion eich asiant ar unrhyw adeg, llenwch ffurflen 64-8 *Awdurdodi eich asiant*. Anfonwch hi gyda'ch cais i ohirio (neu ar wahân) wedi ei nodi 'at sylw'r Gwasanaethau Gohirio' i'r cyfeiriad a ddangosir yn y paragraff 'Help a chyngor' ar dudalen 3. Mae'r awdurdod hwn yn disytyru unrhyw awdurdod blaenorol a roddwyd i CThEM.

Cewch gopi o ffurflen 64-8:
- ar ein gwefan o dan Ffurflenni, taflenni a gwybodaeth ychwanegol **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/ffurflenniathaflenni_defnyddiol.htm**
- drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**
- mewn unrhyw Ganolfan Ymholiadau. Mae manylion ar gael yn y *Llyfr Ffôn* o dan 'HM Revenue & Customs'.

I weld ein horiau agor ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

Sut i wneud cais

Os ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer gohirio CYG Dosbarth 2 a/neu Ddosbarth 4, llenwch a llofnodwch y ffurflen gais CA72B rydym wedi ei hanfon atoch gyda'r Nodiadau hyn, ac yna anfonwch hi nôl atom.

Pryd i wneud cais

Dylech anfon eich ffurflen gais ar gyfer 2012-13 atom cyn gynted â phosib cyn 6 Ebrill 2012, ond byddwn yn ei derbyn hyd at 5 Ebrill 2013.

Os derbyniwn eich cais ar ôl 5 Ebrill 2013 byddwn ond yn ystyried eich caniatáu i ohirio CYG Dosbarth 4 a dim ond os yw eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 4:

- heb ei dalu'n llawn **neu**
- yn cael ei archwilio.

Mae hyn oherwydd dylech fod wedi talu CYG Dosbarth 2 yn ystod y flwyddyn gyfrannu roeddech yn hunangyflogedig. Ni allwn ganiatáu i CYG Dosbarth 2 gael eu gohirio ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol.

Ar ôl i chi wneud cais

Pan fyddwn yn derbyn eich cais byddwn yn ei ystyried. I'n helpu, efallai byddwn yn gofyn i chi anfon rhai slipiau cyflog atom.

Rhy hwyr i wneud cais

Os na wnaethoch gais i ohirio mewn pryd ac rydych wedi talu:

- CYG Dosbarth 1 a Dosbarth 4, **neu**
- CYG Dosbarth 1, Dosbarth 2 a Dosbarth 4, efallai gallwch gael ad-daliad am CYG Dosbarth 4 sydd wedi cael eu gordalu. I ofyn ynghylch gwneud cais, gweler y paragraff 'Help a chyngor' gyferbyn. Ni allwn roi ad-daliad i chi nes bod eich ffurflen dreth ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei phrosesu'n derfynol a'r tâl wedi'i dalu'n.

Os gallwn eich caniatáu i ohirio

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych pa ddosbarth(iadau) CYG sydd wedi cael ei ohirio/eu gohirio.

Pwysig

Rhaid i chi nodi gohiriad CYG Dosbarth 4 ar eich ffurflen dreth ar gyfer y flwyddyn dreth honno.

Dylech ond talu CYG Dosbarth 4 ar y gyfradd Dosbarth 4 ychwanegol o 2 y cant ar eich holl elw sydd uwchben y Terfyn Elw Isaf o £7,605 pan fyddwch yn talu eich tâl Treth Incwm ar elw masnach.

Os na allwn eich caniatáu i ohirio

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud pam.

Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth

Byddwn yn edrych ar eich cyfrif YG i wirio eich bod wedi talu digon o CYG yn ystod y flwyddyn dreth.

Os nad ydych wedi talu digon o CYG a bod arnoch arian, byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am daliad.

Beth sy'n digwydd flwyddyn nesaf

Byddwn, os yn briodol, yn eich gwahodd i adnewyddu eich gohiriad cyn dechrau'r flwyddyn dreth nesaf.

Os ydych wedi eich cyflogi mewn mwy nag un swydd

Os oes gennych fwy nag un swydd ac yn disgwyl talu prif CYG Dosbarth 1 ar enillion sydd o leiaf:

- £817 bob wythnos, (£3,540 bob mis) drwy'r flwyddyn dreth gyfan mewn un swydd, **neu**
- £963 bob wythnos, (£4,174 bob mis) drwy'r flwyddyn dreth gyfan mewn dwy swydd,

gallwch ofyn i gael gohirio rhan o'ch CYG Dosbarth 1 mewn unrhyw swydd arall sydd gennych, nes y gallwn gyfrifo'r swm cywir o CYG sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. I ofyn ynghylch gohirio CYG Dosbarth 1 gweler y paragraff 'Help a chyngor'.

Sut i gysylltu â ni am gymorth

I gael help a chyngor:

- ewch i **www.hmrc.gov.uk/ni** neu
- ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900** (8.30 i 17.00 dydd Llun i ddydd Gwener) neu
- ffoniwch y Gwasanaethau Gohirio ar **0845 915 7141** neu
- ysgrifennu atom yn
  Cyllid a Thollau EM
  Tros y Bont
  Porthmadog
  Gwynedd
  LL49 9AB

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch eich enw llawn, rhif Yswiriant Gwladol a rhif ffôn yn ystod y dydd i ni.

Eich hawliau ac ymrwymiadau

Mae *Eich Siarter* yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn y gallwn ni ei ddisgwyl gennych chi. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf**